**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 03-02(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 24 Mai 2002 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Goffa Newydd, Gresffordd |

**Yn bresennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Eleanor Burnham, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |

*Yn bresennol*

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

1.1 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i lawr oddi wrth Dafydd Elis Thomas, Ann Jones, Gareth Jones, John Marek, Rod Richards, Ieuan Wyn Jones a Karen Sinclair.

**Eitem 2: Cofnodion ac adrodd yn ôl o’r cyfarfod blaenorol**

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2002.

**Eitem 3: Adroddiad blynyddol y Pwyllgor am 2001-02**

3.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol am 2001-02.

**Eitem 4: Ynni Adnewyddadwy**

4.1 Cyflwynodd Dafydd Wigley ac Alison Halford o’r Pwyllgor Datblygu Economaidd adolygiad y Pwyllgor o Bolisi Ynni gan amlinellu’r angen i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau lefel y carbon sy’n cael ei ryddhau.

4.2 Pwysleisiwyd pwysigrwydd ynni adnewyddadwy, sef canolbwynt yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor. Roedd gwaith ymgynghori ar y gwell a phwysleisiodd yr Aelodau yr angen i glywed barn y cyhoedd er mwyn goleuo trafodaethau pellach y Pwyllgor. Ac yntau wedi cyhoeddi adroddiad ar ynni adnewyddadwy, roedd y Pwyllgor ar hyn o bryd yn edrych ar faterion yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, ac wedi hynny byddai'n edrych ar Wres a Pher Cyfun ac ysgogiadau economaidd.

4.3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau o’r gynulleidfa:

- Pwysleisiodd Geraint Jewson, West Coast Energy Limited, yr angen i’r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu targedau cadarn ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mynegodd siom nad oedd yr adroddiad wedi llwyddo i nodi targedau penodol.
- Cododd Vic Mason, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, bryder yngln â diogelwch tyrbinau gwynt, yn benodol y perygl posibl i’r cyhoedd a’r angen i fabwysiadu mesurau priodol i leihau risg.
- Mynegodd Arnold Pennant bryder yngln ag oedran gorsaf ber yr Wylfa ar Ynys Môn, y tebygrwydd cynyddol y byddai

damweiniau yn digwydd a’r effaith a gâi hynny ar arfordir y Gogledd Orllewin. Roedd angen dybryd i ddatblygu cynllun addas wrth gefn i fynd i’r afael â’r mater hwn.

- Tynnodd Neil Crumpton, Cyfeillion y Ddaear Cymru, sylw at y potensial i ddefnyddio llif llanw fel ffynhonnell ynni ar arfordir y Gogledd Orllewin. Galwodd ar y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried targedau mwy uchelgeisiol na’r rhai a gynigiwyd yn yr adroddiad.
- Pwysleisiodd Bob Barton y potensial i ddatblygu ynni solar. Roedd angen buddsoddi mewn mesurau addas i symud prosiectau solar bach yn eu blaen, yn enwedig mewn adeiladau cyhoeddus a thai cymdeithasol.
- Amlinellodd John Mainwaring, datblygwr fferm wynt posibl, rai o’r anawsterau ymarferol a wynebir wrth ddatblygu prosiectau ar raddfa fach yn cynnwys y gyfundrefn gynllunio a chost ymchwiliad cyhoeddus posibl. Teimlai fod angen sicrhau bod y polisi ar ynni adnewyddadwy a fyddai’n dilyn yn cael ei roi ar waith yn effeithiol; bod angen mynd i’r afael â phroblemau sylfaenol yn y seilwaith presennol; a sefydlu canllawiau addas ar yr hyn oedd yn dderbyniol yn esthetig mewn datblygiadau. Byddai angen mynd i’r afael â rhwystrau o’r fath os oedd datblygiadau ar raddfa fach yn mynd i gael eu hannog.
- Galwodd Jean Davies ar y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyfrwng ystod o fesurau rhagweithiol.
- Dywedodd Steve Salt, West Coast Energy Limited, fod polisi cynllunio effeithiol a chlir yn hanfodol i sicrhau cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Anogodd y Cynulliad Cenedlaethol i fabwysiadu targedau cynhyrchu mwy uchelgeisiol a phwysleisiodd y cyfleoedd posib ar gyfer datblygu economaidd.
- Cododd Janet Williams, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, bryder yngln ag effeithiau iechyd ac effeithiau amgylcheddol rhai technolegau adnewyddadwy yn y tymor hir. Yn benodol, cwestiynai a ddylid cynnwys llosgi gwastraff fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy.
- Dywedodd Ian Lucas AS fod angen mynd i’r afael â’r effeithiau niweidiol i’r amgylchedd oedd ynghlwm wrth ddulliau confensiynol o gynhyrchu ynni a chanfod y dulliau mwyaf effeithiol o ran cynhyrchu adnewyddadwy. Awgrymodd y gellid cael budd pellach drwy ymgynghori a Gweithrediaeth yr Alban a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn datblygu technolegau cynhyrchu amgen.
- Mynegodd Ian Miller, Cyngor Sir Ddinbych, bryder yngln ag effeithlonrwydd y gyfundrefn gynllunio bresennol, yn enwedig hyd yr amser a gymerai i asesu ceisiadau a gâi eu ‘galw i mewn’ gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- Awgrymodd Paul Davies, Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol, safleoedd tir llwyd fel lleoliadau posibl ar gyfer datblygu prosiectau ynni amgen. Roedd llawer o safleoedd diwydiannol yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd yn barod a gallai ymgorffori technoleg ynni adnewyddadwy i mewn i safleoedd diwydiannol sy’n bodoli eisoes, er enghraifft, drwy osod paneli solar ar y toeon neu godi tyrbinau gwynt, helpu i gyfiawnhau eu bodolaeth heb effeithio ar amgylcheddau mwy deniadol. Yn ychwanegol at hynny, tynnodd sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio ethanol a wnaethpwyd o wastraff bio-màs fel ychwanegiad at betrol.
- Galwodd y Cyng Andrew Bailey, Cyngor Sir Wrecsam, ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth ymarferol ar osod paneli solar.
- Pwysodd Margaret Heaton ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog y diwydiannau pensaernïol ac adeiladu i ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni i mewn i ddyluniad adeiladau.
- Teimlai Chris Taylor fod angen i’r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar dargedau sydd yn her, yn debyg i’r hyn a geir yn yr Almaen, a fyddai’n rhoi cyfarwyddyd clir o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yn ychwanegol at hynny, cwestiynai effeithiolrwydd a diogelwch llosgi fel technoleg bosibl a chyfeiriodd at ailgylchu fel dull mwy ffafriol o waredu gwastraff.
- Mynegodd Elwyn Williams bryder yngln â’r dulliau prosesu a ddefnyddid yn Castle Cement ac effeithiau niweidiol posibl hynny ar iechyd y gymuned leol.
- Mynegodd y Cyng Raymond Squire o Bentremaelor bryder yngln ag effaith amgylcheddol llosgi mewn gwaith lleol.
- Pwysleisiodd Godfrey Northam, Cyngor Cymuned Bethesda, bwysigrwydd afonydd fel ffynhonnell ar gyfer trydan dr.
- Pwysleisiodd y Cyng Gerwyn Jones, Cyngor Tref Llangefni, ddibyniaeth economaidd Ynys Môn ar gynhyrchu ynni a mynegodd bryder am ganlyniadau cau gorsaf ber yr Wylfa i’r ynys.

4.4 Cododd Aelodau’r Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr adroddiad yn cynnwys ystod o ddewisiadau mewn perthynas â thargedau addas ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a byddid yn cytuno ar darged swyddogol ar ôl yr ymgynghori cyhoeddus. Derbynnid y byddai gofyn am darged uchelgeisiol.
- Roedd angen rhagor o eglurder yngln â’r broses gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy. Ar hyn o bryd, yr

Adran Diwydiant a Masnach oedd yn gyfrifol am geisiadau cynllunio oedd yn ymwneud â datblygiadau dros 50 megawat. Roedd trafodaethau gyda llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt i geisio ffyrdd o wella’r trefniadau presennol ac ymestyn pwerau’r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chymeradwyo ceisiadau.

- Roedd yn bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng effaith amgylcheddol a chyfleoedd datblygu economaidd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Roedd yn hanfodol dod â gwahanol safbwyntiau at ei gilydd, ystyried anghenion lleol a mynd i’r afael â phryderon cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â materion diogelwch. Roedd angen rhesymoli’r polisi cynllunio presennol a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu’n effeithiol. Roedd angen prosesu ceisiadau yn fwy effeithlon.
- Cytunwyd y byddai gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac ar yr economi. Roedd angen addysgu’r cyhoedd i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cadwraeth ynni.
- Roedd gofyn am strategaeth resymegol ar ddatblygu ffermydd gwynt er mwyn rhoi arwydd clir i ddatblygwyr posibl. Byddai angen mabwysiadu agwedd hyblyg ac ystyried cymysgedd o gynlluniau a fyddai’n cynnwys datblygiadau ar raddfa fawr ac ar raddfa fach fel ei gilydd. Nodwyd y byddai’r cynigion presennol ar gyfer ffermydd gwynt yn y môr yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y targed oedd wedi ei awgrymu ar gyfer 2010.
- Mynegwyd pryder fod gwastraff a llosgi wedi eu cynnwys fel ffynhonnell bosibl ar gyfer ynni adnewyddadwy.

**Eitem 5: Sesiwn Holi ac Ateb Prif Weinidog Cymru**

5.1 Nododd Prif Weinidog Cymru bwysigrwydd y strategaeth wastraff arfaethedig i Gymru, yr angen i ymgorffori mesurau arbed ynni wrth adeiladu tai newydd a’r prosiect newydd ar gyfer ailgylchu papur ar lannau Dyfrdwy.

5.2 Mynegodd aelod o’r gynulleidfa bryder am effeithiau datblygiadau ynni adnewyddadwy ar gefn gwlad a’r effaith ar dwristiaeth a ddeuai yn sgîl hynny. Eglurodd Prif Weinidog Cymru fod tirwedd Cymru yn arbennig o addas ar gyfer ffermydd gwynt, ac mai dyna’r ffurf rataf ar ynni adnewyddadwy ac, o ganlyniad, fod datblygu ar y tir yn ddewis arbennig o ymarferol. Roedd angen derbyn y byddai pob technoleg ynni adnewyddadwy yn cael effaith ar yr amgylchedd i ryw raddau.

5.3 Cododd Mike Webb, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru a Chris Pilsbury o TCC, bryderon yngln â phwy sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yng Nghymru a Lloegr. Ailddywedodd Prif Weinidog Cymru fod sylwadau wedi eu cyflwyno i Lywodraeth y DU yn gofyn am roi cyfrifoldeb i’r Cynulliad Cenedlaethol am benderfyniadau cynllunio sy’n ymwneud â datblygiadau ynni adnewyddadwy uwchben y trothwy presennol o 50 megawat.

5.4 Mynegodd y Cyng Kevin Williams siom nad oedd cynnydd wedi ei wneud dros nifer o flynyddoedd ar ddatblygu ynni o’r llanw ac anogodd y Cynulliad Cenedlaethol i symud ymlaen â chynlluniau fel mater o frys.

5.5 Tynnodd Peter Geddis, Energy Hydro, sylw at y cyfraniad y gallai cynlluniau trydan dr ar raddfa fach ei wneud a’r pwysigrwydd a roddid iddynt yn yr Alban. Awgrymodd y gallai cyfraniad posibl y sector, fel y'i cynigiwyd yn yr Adroddiad, gael ei ddyblu. Dywedodd Prif Weinidog Cymru y gallai’r angen i amddiffyn nentydd ar gyfer cyflenwadau pysgod gyfyngu ar ddatblygiadau o’r fath yng Nghymru.

5.6 Cododd Rhiannon Evans bryder am hyd rhestrau aros am drin a rheoli poen. Anogodd y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i wella’r gwasanaethau poen a ddarperir yng Ngogledd Cymru. Cytunodd Prif Weinidog Cymru i godi’r mater gyda’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a threfnu bod ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

5.7 Pwysleisiodd Geraint Jones, Y Ganolfan Effeithlonrwydd Ynni, fanteision y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref. Awgrymodd y dylid ystyried ymestyn y cynllun i gynnwys inswleiddio waliau solet, oedd yn gyffredin iawn yn stoc tai Cymru. Cytunai Prif Weinidog Cymru fod y mater yn bwysig ond dywedodd y gallai cynnig o’r fath achosi problemau technegol ac arwain at drafferthion difrifol i’r trigolion.

5.8 Dywedodd Stan Moore fod adroddiad diweddar gan yr Adran Diwydiant a Masnach wedi disgrifio llosgi fel hen dechnoleg. Teimlai ei bod yn bwysig croesawu technolegau newydd ac arloesol. Yn ychwanegol at hynny, awgrymodd fod angen annog y sector adeiladu preifat i ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau adeiladu newydd.

5.9 Teimlai aelod o’r gynulleidfa y dylid ystyried y ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiol wrth gymharu’r costau

cynhyrchu perthynol yn ôl yr uned ar gyfer gwahanol ffurfiau cynhyrchu.

5.10 Dywedodd Hugh Smallwood, Windgen Power, fod Cymru yn cynnig lleoliad perffaith ar gyfer datblygu technolegau adnewyddadwy, yn enwedig ynni gwynt. Anogodd y Cynulliad i fod mor gadarnhaol yn ei agwedd tuag at gynllunio yn y sector hwn ag y bu Gweithrediaeth yr Alban.

5.11 Pwysleisiodd Owen Prosser, mudiad adnewyddu rheilffyrdd, bwysigrwydd adnewyddu rheilffyrdd fel cyfrwng tuag at ddull trafnidiaeth sy'n fwy effeithiol o ran ynni. Anogodd y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried ailagor y rheilffordd ar gyfer teithwyr rhwng y Rhyl a Rhuthun. Teimlai Prif Weinidog Cymru fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd o ran adnewyddu rheilffyrdd i deithwyr a thwristiaid fel ei gilydd. Dywedodd y byddai ‘Masnachfraint Reilffyrdd Cymru Gyfan’ yn caniatáu rhagor o hyblygrwydd i fuddsoddi mewn gwasanaethau rheilffyrdd ac, os oedd hynny’n briodol, i ailagor llinellau rheilffyrdd.

5.12 Dywedodd Bleddyn Jones, Cyngor Sir Gwynedd, fod gofyn am adnoddau ychwanegol i ateb y galw am gynlluniau Homebuy yn ardal yr awdurdod lleol. Cytunai Prif Weinidog Cymru fod cynlluniau prynu cartref am gost isel yn chwarae rhan hanfodol mewn galluogi pobl leol i fanteisio ar dai fforddiadwy. Dywedodd y byddai’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud adolygiad o’r cynllun Homebuy yn ystod yr haf ac y byddai’n adrodd yn ôl ar ganfyddiadau’r adolygiad, yn cynnwys y goblygiadau a fyddai’n dilyn o ran adnoddau, yn yr hydref.

5.13 Gofynnodd Rita Billington, Cyngor ar Bopeth, a oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu adolygu’r trefniadau cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni presennol gyda’r bwriad o leihau dyblygu a chyflwyno dull mwy diwastraff. Awgrymodd Prif Weinidog Cymru ei bod hi’n anfon gwybodaeth bellach ato yngln â rhaglenni penodol.

**Eitem 6: Ethol Cadeirydd**

6.1 Gwahoddodd Eleanor Burnham enwebiadau i gymryd drosodd fel Cadeirydd. Peter Rogers oedd yr unig un a gafodd ei enwebu, ac felly cafodd ei ethol yn briodol yn Gadeirydd ar gyfer 2002-03. Mynegodd Peter Rogers ei ddiolch i Eleanor Burnham am ei gwaith fel Cadeirydd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.